**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT 13 GORFFENNAF 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 13Gorffennaf 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:**Lisa Allen a Lynne Bartlett,

**YMDDIHEURIADAU:**Wendy White

**CYFRANWYR:**
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) (ar gyfer cofnod rhif 13 ac 14)
Ymgynghorydd Dysgu - Iechyd, Lles a Diogelu (ar gyfer cofnod rhif 14)
Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint (ar gyfer cofnod rhif 15)
Rheolwr Gyfarwyddwr (NEWydd) (ar gyfer cofnod rhif 17)
Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG (ar gyfer cofnod rhif 18)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 11. COFNODION

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ar y Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, cytunodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) i siarad â'r Hwylusydd i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 eu cymeradwyo fel y'u cynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie a'r Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 12. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfodydd i ddod a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar wahân i'r eitem a nodwyd gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst a chytunodd i ymgynghori â'r Hwylusydd i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys. Yna darparwyd gwybodaeth am y Gweithdai Aelodau ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) a Chyllideb 2024-24 a Rhianta Corfforaethol.

Yna rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu yn Atodiad 2. Byddai angen i'r cynigion ar gyfer Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol gorfodol aros nes bod canlyniadau ymgynghoriad Adolygiad Penn yn hysbys ond cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ei fod ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at yr Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol ar-lein a theimlai fod sesiynau wyneb yn wyneb i Aelodau yn well. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod sesiwn ar-lein wedi'i threfnu yn dilyn y cais i'w chynnal cyn y toriad ac ar fyr rybudd. Byddai'r sesiwn yn rhoi golwg gyffredinol ar Rianta Corfforaethol ac yn cynnwys llawlyfr CLILC ac atodiad yn amlinellu beth oedd y rôl yn ei olygu. Roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu ei Strategaeth Rhianta Corfforaethol a chynigiwyd cyflwyno dwy sesiwn arall, un wyneb yn wyneb ac un ar y we, yn yr Hydref unwaith y byddai'r Strategaeth wedi'i diwygio a'i hadnewyddu. Byddai'r hyfforddiant yn cynnwys themâu penodol ar gyfer Sir y Fflint, a chynigiwyd hefyd gwahodd rhai o'r Bobl Ifanc i siarad ag Aelodau ac ateb cwestiynau.

Diolchodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst i'r swyddogion am ddarparu'r data ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal ac wedi'u gwahardd o'r ysgol. Roedd y ffigwr o 20% yn llawer uwch na disgyblion eraill a chyfeiriodd at ddata cenedlaethol a oedd yn dangos bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o gael eu gwahardd am ddangos yr un math o ymddygiad cythryblus â'u cyfoedion. Fel Rhieni Corfforaethol roedd yn ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau nad oedd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu trin yn wahanol.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 13. AROLYGIAD ESTYN AR DDYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED O FEWN PARTNERIAETH DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Eglurodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) fod yr adroddiad diweddaru yn dilyn Adroddiad Arolwg Estyn cadarnhaol ar gyfer y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a gynhaliwyd ym mis Mai 2022. Roedd yr aelodau wedi gofyn am ddiweddariad ar gynnydd yr argymhellion a dderbyniwyd yn dilyn yr Arolwg hwnnw gydag Estyn yn cydnabod meysydd cryfder a datblygiad y Partneriaethau. Amlinellwyd y pedwar argymhelliad a throsolwg o'r gwaith a wnaed ar gyfer pob argymhelliad yn yr adroddiad.

Diolchodd yr Uwch Reolwr i Dawn Spence, yr Ymgynghorydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a'r Ymgynghorydd Dysgu Ôl-16, a ddywedodd hi oedd y grym i weithredu'r argymhellion ochr yn ochr â'r gwaith a wnaed yn y Cynllun Gwella Ansawdd i wella a datblygu'r ddarpariaeth dysgu oedolion.

Canmolodd y Cynghorydd Carolyn Preece y tîm am y cynnydd rhagorol a wnaed a dywedodd nad oedd addysg gymunedol wedi'i hyrwyddo'n flaenorol ond roedd y Cynllun yn gwella hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am ei ddull partneriaeth gyda'r Cyngor am fod yn rhagweithiol iawn yn y maes hwn yn enwedig yr ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg.  Roedd hi hefyd yn falch bod y dysgwyr eu hunain yn rhan o hyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynnydd a wnaed yn erbyn Arolwg Estyn yn cael ei nodi; a
(b) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau gan drylwyredd y cynllunio a gwerthuso gwelliant o fewn y Bartneriaeth.

## 14. RHAGLEN YSGOLION IACH

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu yr adroddiad diweddaru ar gyfer Ysgolion Iach a oedd wedi bod yn bresennol mewn ysgolion ers dros 20 mlynedd ac a ariannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ond a arweiniwyd ar lefel Awdurdod Lleol. Roedd y Cynllun Cyn-Ysgol Iach yn dilyn model tebyg gyda'r Cynllun yn darparu arfer gorau i'r ysgolion weithio tuag ato ac roedd amlinelliad o'r pynciau iechyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.  Cyn Covid, aseswyd ysgolion ar sut y casglwyd tystiolaeth i gefnogi datblygiad ac roedd gwybodaeth am yr hyn yr oedd ysgolion wedi'i gyflawni wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor.  Ers Covid roedd y Cynllun o dan adolygiad cenedlaethol a oedd wedi cyd-daro â diwygiadau'r Cwricwlwm a chynigiwyd ail-lansio'r Cynllun yn genedlaethol yng ngwanwyn 2024.  Roedd y Cynllun Ysgolion Iach yn uno â'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles a byddai hefyd yn ei lansio yng ngwanwyn 2024.

Y flaenoriaeth oedd cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â'r ymagwedd ysgol gyfan i arfarnu eu darpariaeth eu hunain ar gyfer llesiant wrth gefnogi dysgwyr a

staff, i gryfhau’r meysydd cadarnhaol, mynd i’r afael ag unrhyw ddiffygion a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru gyda 82.1% o ysgolion Sir y Fflint yn cymryd rhan yn y broses hon, a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 52%.  Roedd mwy na 67% wedi cwblhau'r Teclyn Hunanasesu a gafodd dderbyniad da yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Rhoddwyd diweddariad ar y Cod ACRh / Cwricwlwm i Gymru a Bwyd a Maeth mewn ysgolion uwchradd. Ymgynghorwyd â dysgwyr ar draws ysgolion uwchradd ac roedd eu hargymhellion ar gyfer gwelliannau wedi'u cynnwys.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am Gydgysylltu Rhaglenni ar gyfer y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, Bwyd a Hwyl ac Urddas Mislif. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y Diffiniad Fêpio a oedd yn arbennig o heriol i Benaethiaid mewn ysgolion. Gwerthwyd fêpio yn lle ysmygu i oedolion ond nid oedd tystiolaeth hirdymor ar gael ar hyn o bryd ar oblygiadau fêpio.  Darparwyd gwybodaeth am ffurfio'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad ac roedd yr Awdurdod yn darparu hyfforddiant i arweinwyr mewn Ysgolion Uwchradd ar y dyfeisiau fêpio, y gwahanol lefelau o gemegau sydd ynddynt a sut i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig.  Roedd polisi di-fwg wedi'i ddatblygu a byddai'n cael ei lansio yn nhymor yr Hydref a darparwyd amlinelliad o sut y byddai'r hyfforddiant yn hysbysu Penaethiaid ysgolion uwchradd a chynradd yn well.

Parhaodd ysgolion i gael cymorth ynghylch cwblhau'r Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) a fyddai'n cael ei gynnal yn yr hydref mewn ysgolion uwchradd er mwyn gallu casglu mwy o ddata lleol.  Unwaith y byddai'r data cywir o bob ysgol uwchradd wedi'i gasglu, byddai'n cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2024.  Yna byddai angen newidiadau ar lefel y DU gyfan i fynd i'r afael â hyn a byddai'r papur briffio gan Ash Cymru yn cefnogi'r angen hwnnw am newid.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie ei fod yn ymwybodol o un ysgol a oedd wedi tynhau eu polisi ar fêpio ac wedi gweld gostyngiad dramatig yn y nifer yn fêpio. Gan gyfeirio at y Cynllun newydd yn dechrau yn 2024, awgrymodd y Cynghorydd Mackie y dylid cyflwyno adroddiad yn amlinellu'r cynlluniau a'r amcanion i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.  Dywedodd pan fyddai diweddariadau'n cael eu cyflwyno, y byddai'n galluogi'r Aelodau i edrych ar yr adroddiad i ddeall y camau i weld sut roedd yr amcanion yn cael eu cyflawni.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu fod y ffocws o amgylch y Cynllun yn ymwneud â dull ysgol gyfan, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Bwyd a Maeth, Bwyd a Hwyl ac Urddas Mislif. Parhaodd y blaenoriaethau hyn am eleni a darparwyd yr amcanion yn Adran 1.06 yr adroddiad.  Roedd gan ysgolion eu cynlluniau eu hunain yn seiliedig ar eu hanghenion a dadansoddiad a gynhaliwyd o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r archwiliad Dull Ysgol Gyfan a fyddai'n nodi themâu cyffredin ar draws ysgolion y gellid eu rhannu.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Mackie ynghylch ffitrwydd, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel rhan o'u Hadolygiad, yn gwahanu themâu iechyd gyda gweithgareddau ffitrwydd

yn sefyll ar eu pen eu hunain. Byddai hyn yn cael ei flaenoriaethu'n fwy gydag Aura a sefydliadau eraill sy'n cefnogi ysgolion o ran gweithgaredd corfforol.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion y byddai amcanion a blaenoriaethau clir yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau unwaith y byddai'r cynllun newydd yn ei le. Roedd heriau oherwydd Covid, yr adolygiad o'r Cynllun Cenedlaethol. Yr awdurdod yn y trafodaethau cenedlaethol gydag Iechyd y Cyhoedd ar sut y byddai'r Cynllun yn datblygu. Byddai trafodaethau gyda'r budd-ddeiliaid yn galluogi'r nodau a'r amcanion hynny i gael eu rhoi ar waith. Talodd deyrnged i waith caled yr Ymgynghorydd Dysgu a'r tîm bychan yn cefnogi hyn.

Cafodd yr argymhelliad, fel amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn lefel briodol o sicrwydd ynglŷn â gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid wrth gefnogi ysgolion i gwrdd â gofynion cyfredol y rhaglen Ysgolion Iach ac wrth baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r adolygiad cenedlaethol.

## 15. CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID

Darparodd yr Uwch Reolwr, Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint drosolwg o'r gwaith statudol a wneir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn Sir y Fflint. Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol ynghlwm wrth y Cynllun yr oedd angen ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn flynyddol. Roedd y Cynllun yn ymgorffori'r weledigaeth a rennir gan Lywodraeth Cymru (LlC) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 'Plant yn Gyntaf' a sefydliad sy'n Ystyriol o Drawma gyda chymorth partneriaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Glyndŵr. Roedd y gwasanaeth wedi bod yn rhan o gynllun peilot yng Nghymru o'r blaen gan ddefnyddio'r Model sy'n Ystyriol o Drawma drwy'r peilot Rheoli Achosion Uwch, ac roedd hyn yn adeiladu ar lwyddiant y peilot a'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd. Roedd y gwasanaeth am sicrhau bod cyfranogiad o fewn yr amcanion strategol gweithredol yn galluogi lleisiau'r plant a'r bobl ifanc i gael eu clywed er mwyn llywio cyfeiriad, dulliau ac adnoddau'r gwasanaeth wrth symud ymlaen. Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cyfranogiad y cytunwyd arni y llynedd, ac roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r plant a'r bobl ifanc a ddaeth i'r System Cyfiawnder Troseddol a'r cymorth a gawsant gan y tîm ymroddedig.

Bu newidiadau hefyd yn y math o droseddau a gyflawnwyd y llynedd gyda phandemig Covid yn effeithio ar y data yr oedd modd ei gasglu. Bu gostyngiad mewn troseddau trefn gyhoeddus, cynnydd mewn troseddau lladrad ond trais oedd y prif drosedd o hyd a rhoddwyd blaenoriaeth ychwanegol iddo. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd Trais Gwasanaeth statudol a'r Cynllun Gweithredu Ieuenctid ynghylch trais ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i asio hyn â'r Strategaeth Trais Difrifol. Roedd trais difrifol yn cyfeirio at gyfran fechan o'r garfan ond yn parhau i fod yn bryder. Pryder arall i'r gwasanaeth oedd y defnydd cynyddol o'r ddalfa a remand, gyda'r cyfraddau yn Sir y Fflint yn parhau'n eithaf isel ond bu cynnydd bychan o fewn y 12 mis diwethaf a oedd yn ymwneud â throseddau mwy difrifol. Fel gwasanaeth

roedd defnyddio’r ddalfa yn cael ei weld fel y dewis olaf ond yn anffodus mewn rhai amgylchiadau roedd yn rhaid ei ddefnyddio gan fod heriau o gwmpas y sector gofal cymdeithasol ar gyfer lleoliadau priodol i blant a phobl ifanc. Roedd angen cydbwysedd rhwng cefnogi person ifanc a chadw'r gymuned yn ddiogel.

Adroddodd yr Uwch Reolwr ar gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a'r effeithiau ar y garfan i sicrhau eu bod i gyd yn cael profiad cadarnhaol ynghyd â mynd i'r afael â materion anghymesuredd o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ehangach.

Wrth amlinellu'r heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod, roedd yr adroddiad yn amlinellu'r goblygiadau o ran adnoddau a'r ffordd unigryw y derbyniodd y gwasanaeth arian grant. Darparwyd hyn gan LlC, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid statudol fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd a gwasanaethau eraill. Eglurodd yr Uwch Reolwr sut yr oedd yr arbedion effeithlonrwydd a’r heriau costau byw a wynebwyd gan bartneriaid y Cyngor wedi effeithio ar y gyllideb yr oedd y gwasanaeth yn ei derbyn. Roedd recriwtio yn parhau i fod yn her gyda phobl yn llai tebygol o gymryd swyddi tymor byr wedi'u hariannu. Roedd y mesurau a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Rheoli a'r Tîm Prif Swyddogion wedi galluogi gweithlu sefydlog a chefnogol. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi gwneud gwaith ar Gynllun Olyniaeth a Datblygu Gweithlu a fyddai'n sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi, eu hyfforddi ac yn ymgymryd â chyfleoedd datblygu. Roedd pob Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru wedi profi newidiadau o ran Llywodraethu, Goruchwylio ac Arwain ynghyd â'r gofyniad i adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023. Yn flaenorol roedd y gwasanaeth wedi gofyn am adolygiad gan gymheiriaid o ran rheolaeth a llywodraethu gan y Bartneriaeth Gwella’r Sector Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd hyn yn cefnogi'r gwasanaeth trwy aros yn gryf i ddarparu'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc cyn arolwg CThEF o fewn y 12 mis nesaf.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Dave Mackie ynghylch y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn, amlinellodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y rhwystredigaethau ynghylch y sefyllfa ariannu a golygai nad oedd y gwasanaeth yn gallu cynllunio'n strategol ar gyfer carfan o bobl ifanc fregus iawn. Roedd recriwtio i'r gwasanaeth hwnnw yn heriol a dyna pam yr oedd y Prif Weithredwr a'r Tîm Prif Swyddogion wedi gwneud y penderfyniad i benodi swyddi parhaol ar sail risg ar gyfer y rolau arbenigol hyn. Roedd y Prif Weithredwr, fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, wedi ysgrifennu at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi pa mor annerbyniol ydoedd ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol nad oeddent yn hysbys beth oedd y dyraniad cyllid craidd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Reolwr a'i dîm am y Cynllun manwl ac roedd yn falch eu bod wedi croesawu adolygiadau adeiladol gan gydweithwyr a oedd yn gwella gwasanaethau cyffredinol o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. Roedd hi'n teimlo eu bod nhw ar flaen y gâd.

Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi’i nodi yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a’i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r blaenoriaethau strategol a gweithredol yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.

## 16. PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad, a oedd yn cynnwys crynodeb o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer diwedd y flwyddyn i'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid. Amlygwyd bod 77% o weithgareddau yn gwneud cynnydd da gyda 62% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd Adran 1.04 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r graddfeydd cynnydd cyffredinol yn erbyn gweithgareddau ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y ganran fechan o weithgareddau Coch, gyda'r Prif Swyddog yn egluro nad oedd blwyddyn adrodd y Cyngor yn cyd-fynd â'r flwyddyn Ysgol Academaidd ac mai'r prif ffocws mewn ysgolion eleni oedd yr ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol ac archwiliadau sylfaenol y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd ysgolion ar y trywydd iawn o ran cwblhau eu harchwiliadau sylfaenol a chreu eu cynlluniau gweithredu a fyddai'n cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Ch1. Gan gyfeirio at Adran 1.08 o'r adroddiad rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth fanwl am yr is-flaenoriaethau ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol a sesiynau dysgu digidol a ddarperir yn Gymraeg.

Mewn ymateb i sylw'r Cynghorydd Dave Mackie ar y diffyg gwybodaeth gan Brifysgol Agored Cymru, eglurodd y Prif Swyddog fod y wybodaeth hon gan Aura gan ei bod yn un o'u targedau. Cytunodd fwydo hyn yn ôl iddynt. Gofynnodd y Cadeirydd am i gynrychiolydd o Aura fynychu cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol i roi cefndir i'w adran hwy o'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mackie ar Uned Cyfeirio Disgyblion Plas Derwen a chynnydd mewn gwaharddiadau disgyblion, dywedodd y Prif Swyddog fod gan y portffolio gefnogaeth y Tîm Cynhwysiant ond mai rhan o'r Strategaeth oedd defnyddio arbenigedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion gan fod y rhain yn unigolion medrus iawn a oedd yn delio â phlant ag ymddygiad heriol. Rhoddodd y Prif Swyddog drosolwg o'r heriau a wynebir o ran staffio a'r ffocws i ailsefydlu eu huwch dîm arweinyddiaeth a mynd i'r afael ag argymhellion Arolygiad Estyn. Yn wyneb hyn roedd y Penaethiaid Uwchradd yn deall y sefyllfa yn llawn ac yn cydymdeimlo.

Dywedodd y Prif Swyddog nad Plas Derwen oedd yr unig ffynhonnell oedd ar gael i ysgolion gan fod cyfleoedd ar gyfer datblygiad parhaus eu staff eu hunain o ran rheoli ymddygiad drwy'r cyllid datblygiad proffesiynol a dysgu. Yn dilyn y pandemig a'r heriau yr oedd disgyblion yn eu hwynebu wrth ddychwelyd i'r ysgol, teimlai llawer o staff nad oedd y strategaethau a oedd ar waith cyn y pandemig yn llwyddiannus mwyach. Roedd y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol yn bwysig fel elfen gefnogol o'r archwiliadau a'r cynlluniau yr oedd yr ysgolion yn eu rhoi ar waith i gefnogi'r materion hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Gladys Healey ar Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r tîm a oedd yn cefnogi hyn, cadarnhaodd y Prif Swyddog

fod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. Roedd y tîm yn cynnwys Swyddog ymroddedig a ganolbwyntiodd ar y gwaith hwn gyda chefnogaeth tîm cyfan o Weithwyr Cymdeithasol Addysg a Gweithwyr Cymdeithasol Cynhwysiant. Sicrhaodd yr Aelodau fod y portffolio yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran yr oruchwyliaeth honno o blant yr oedd eu rhieni wedi penderfynu eu haddysgu gartref. Bu cynnydd gyda mwy o rieni yn gwneud y penderfyniad hwnnw ar draws y gwahanol grwpiau blwyddyn gyda rhai grwpiau blwyddyn yn fwy cyffredin nag eraill. Rhoddwyd Rhybuddion Cosb Benodedig pan oedd yr ysgol wedi rhoi cynnig ar bob cyfle arall i ymyrryd er mwyn annog rhieni i anfon eu plant i'r ysgol. Cefnogwyd hyn gan yr Ysgolion Bro a hyrwyddir ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Roedd yn ymwneud â deall y rhwystrau a'r heriau yr oedd plant yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'w haddysg a darparu'r cymorth hwnnw i deuluoedd i'w cynorthwyo â'r materion heriol hyn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyr a anfonwyd at Jeremy Miles yn mynegi pryderon y Pwyllgor a oedd wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawniadau'r blaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23;
(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion / mesurau perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23: a
(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 17. GWASANAETH PRYDAU YSGOL

Wrth gyflwyno'r adroddiad esboniodd Mr Steve Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Arlwyo a Glanhau NEWydd fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar brydau ysgol am ddim i bawb. Er bod hwn yn gam cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru (LIC), fel busnes roedd wedi amlygu rhai risgiau gan ei fod yn gwneud y cwmni yn fwy o darged i gwmnïau sector preifat. Roedd ysgolion yn gwneud y penderfyniadau hyn eu hunain, felly blaenoriaeth NEWydd oedd darparu gwasanaeth da i gadw'r busnes.

Dechreuodd y broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim ym mis Medi 2022 gyda disgyblion oed derbyn ac yna gyda blynyddoedd 1 a 2 ar ôl Pasg 2023. Roedd y gwasanaeth ar y trywydd iawn i'w gyflwyno i flynyddoedd 3 a 4 ym mis Medi 2023 gyda blynyddoedd 5 a 6 yn gymwys o fis Ebrill 2024 ymlaen. Roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud mewn ysgolion a oedd yn cynnwys gwelliannau i isadeiledd, offer, adnoddau a sicrhau bod prosesau ar waith. Sefydlwyd grŵp prosiect trawsbleidiol i oruchwylio hyn a oedd yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynrychioli NEWydd a chydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd. Cynrychiolodd y Grŵp y Cyngor yn genedlaethol hefyd mewn cyfarfodydd a arweiniwyd gan LIC neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i drafod cyllid ac arlwyo.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 2 o'r adroddiad a oedd yn cynnwys manylion am y gwelliannau i'r isadeiledd gyda gwybodaeth a ddarparwyd ar y gegin ganolog a grëwyd 2 flynedd yn ôl a'r gwaith a wnaed yn dilyn ei gyflwyno gyda mwy o brydau ysgol yn cael eu darparu. Roedd pob pryd yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru ac mae gwaith ar y gweill i ailgyflwyno, er enghraifft, mwy o ryseitiau cartref a phobi ar y safle tebyg i'r hyn a ddarparwyd cyn y pandemig. Rhoddwyd gwybodaeth am y bartneriaeth beilot gyda Well Fed a disgwylir y canlyniadau'n fuan.

Mewn perthynas ag adnoddau, cadarnhawyd bod y cyllid refeniw gan LlC yn seiliedig ar gyfradd uned brydau o £2.90 y pryd, gyda llawer o Gynghorau gan gynnwys Sir y Fflint yn nodi nad oedd hyn yn talu am y gost o'i ddosbarthu. Roedd Grŵp wedi'i sefydlu i adolygu gwir gost pryd ysgol gan gynnwys yr holl gostau nid y bwyd yn unig gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod ar 17 Gorffennaf. Gan gyfeirio at Gyllid Cyfalaf roedd LlC wedi dyfarnu £3m o gyllid cyfalaf i'r awdurdod a oedd wedi galluogi gwelliannau i isadeiledd, gwelliannau i gyflenwadau nwy a thrydan i geginau, gwaith awyru a phrynu offer. Roedd hefyd wedi galluogi mwy o gapasiti coginio o fewn y ceginau, a diolchodd i'r ysgolion am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith hwn. Roedd nifer fach o ysgolion yn aros i'r gwaith isadeiledd ddechrau a chynlluniwyd amserlen waith gyda thîm eiddo'r Cyngor yn ystod tymor yr haf i sicrhau ei fod wedi'i gwblhau erbyn mis Medi. Rhoddwyd trosolwg o'r trefniadau eistedd gwell, y goleuadau a'r llestri.

Gan gyfeirio at risgiau dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn bwysig bod teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cais ac amlinellodd sut yr oedd hyn yn cael ei gyfeirio ar draws y cyngor. Parhaodd yr ymgynghori â rhieni ac ysgolion gydag arolwg arall yn cael ei gynnal ym mis Medi i sicrhau bod unrhyw faterion ar lefel ysgol yn cael eu bwydo'n ôl. Roedd yn llwyddiannus ar hyn o bryd gyda chyfraddau manteisio ar 70% o'r rhai cymwys yn cyd-fynd â thargedau LlC, ond roedd y gwasanaeth am wella'r ffigwr hwn i gyrraedd cymaint o ddisgyblion â phosibl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie ar effeithlonrwydd ynni'r poptai trydan newydd, nid oedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn ymwybodol eu bod yn fwy costus i'w defnyddio. Roedd offer trydan yn cael ei ddisodli gan offer nwy gan fod hyn yn helpu gyda'r awyru gan fod y rheolau ar gyfer offer nwy yn llymach. Roedd peth o'r arian Cyfalaf wedi'i ddefnyddio mewn ysgolion i gynyddu effeithlonrwydd ynni yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiynau ar ddewisiadau bwydlenni a chyllid, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod dewis mawr o brydau ond pe bai ansawdd y prif gynnig yn cynyddu, byddai'r dewis o brif gynnig poeth cig a llysieuol ochr yn ochr â hyn yn cael ei leihau. Ar hyn o bryd mae'r ddau brif gynnig yn cael eu darparu ynghyd â thaten drwy'i chroen gyda gwahanol lenwadau, pot pasta gyda gwahanol lenwadau a brechdanau gyda gwahanol lenwadau. Cynigiwyd lleihau hyn i gwrdd neu ddod o fewn yr amlen gyllido sydd ar gael a fyddai'n lleihau hyn i bedair eitem, y ddau brif ddewis poeth a phasta neu datws trwy'u crwyn a brechdanau. Dywedodd mai'r pryd mwyaf maethlon y gallai plentyn ei gael bob dydd oedd cinio ysgol a phe bai'r cynnig poeth yn cael ei gymryd bob dydd, yna roedd hwn yn sicr o fod y mwyaf maethlon.

O fis Medi, byddai pob ysgol yn cael bariau salad ffres i gefnogi pob pryd gyda ffrwythau ffres a bariau iogwrt ar gyfer pwdin. Roedd hyn wedi'i dreialu'n ddiweddar mewn rhai ysgolion ac roedd y plant wedi mwynhau'n fawr, yn enwedig gan eu bod yn gallu gweini eu hunain gyda llawer o blant yn rhoi cynnig ar fwydydd nad oeddent wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen.

Cydnabu'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) efallai nad yw plant iau mor hyderus i roi cynnig ar amrywiaeth wahanol o fwydydd. Cyhoeddwyd y bwydlenni trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, felly roedd plant a theuluoedd yn gallu edrych ar y dewisiadau. Roedd hwn yn gyfle gwych a ariannwyd drwy'r Cytundeb Cydweithredu ac roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynrychioli'r Cyngor ar y grŵp a oedd yn edrych ar gyllid a'r gobaith oedd y byddai LlC mewn sefyllfa i gynyddu'r cyllid fesul pryd i gyd-fynd â'r gyfer y costau cynyddol. Roedd y pwyslais ar ansawdd er mwyn sicrhau bod plant yn cael pryd o fwyd iach iawn a gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r portffolio drwy annog teuluoedd yn eu wardiau i wneud cais am brydau ysgol am ddim.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynghylch ansawdd prydau ysgol, cytunodd y Rheolwr Gyfarwyddwr na fyddai brechdan mor faethlon â'r cynnig poeth. Cytunodd gyda'r sylwadau ar gaws wedi'i brosesu a bara gwyn a dywedodd fod gwella'r cynnig brechdanau yn cael ei ystyried. Roedd y fwydlen yn cael ei gwella'n barhaus, yn enwedig gydag ailgyflwyno pobi cartref yn y ceginau.

Mewn ymateb i'r sylw a wnaed gan y Cynghorydd Parkhurst ynghylch y seddi mewn ysgolion, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod hyn wedi cael derbyniad da mewn ysgolion a oedd wedi cael dewis o wahanol opsiynau. Cawsant eu gosod gyda chadeiriau heb gefn, ond y cydbwysedd oedd eu bod yn plygu i mewn i uned fechan y gellid ei symud allan o'r ffordd gan fod y neuaddau mewn ysgolion yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill o fewn yr ysgol.

Mewn ymateb i'r sylw a wnaed gan y Cynghorydd Parkhurst ynghylch gwastraff a'r defnydd o blastig untro, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn anodd mesur gwastraff. Dywedodd fod gwastraff yn cael ei fesur o'r ceginau a'r cynhyrchiant dyddiol, a oedd yn cael ei gadw i'r lleiafswm. Unwaith iddo adael y cownter roedd yn anodd mesur, a beirniadwyd y gwasanaeth yn ystod Covid o ran y defnydd o nwyddau tafladwy, ond bu'n rhaid defnyddio'r rhain oherwydd y modd y gweinir y prydau yn y dosbarthiadau. Bu gostyngiad enfawr mewn plastigion untro gydag ychydig iawn yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth arlwyo ar hyn o bryd, ac ar ôl mis Hydref ni fyddent yn gallu cael eu defnyddio o gwbl. Anogwyd pawb i gymryd plât, cyllell, a fforc sef y ffordd fwyaf ecogyfeillgar i weini pryd o fwyd. Roedd brechdanau'n cael eu gweini mewn cardbord a sicrhawyd bod gwastraff yr holl gyflenwyr yn cael ei gadw i leiafswm.

Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Preece fel llywodraethwr ysgol a dywedodd fod y cadeiriau yn ddefnydd ardderchog o ofod gyda'r plant a'r staff yn eu hoffi gan eu bod yn hawdd eu plygu a symud allan o'r ffordd. Gan gyfeirio at faeth, cadarnhaodd ei bod wedi mynychu'r samplu Well-Fed gyda'r disgyblion a oedd wir wedi mwynhau'r samplau y gwnaethant roi cynnig arnynt, ac roeddent yn edrych yn faethlon iawn.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD**

Bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith a wnaed gan NEWydd, swyddogion ac ysgolion i gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Prydau Ysgol Am Ddim i bawb.

## 18. TG YSGOLION

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG y gwaith a wnaed gan ei dîm mewn Ysgolion o ran cymorth TG ac isadeiledd. Roedd y Nodyn Briffio yn cynnwys gwybodaeth am yr heriau isadeiledd cenedlaethol a Rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) a oedd yn darparu mynediad rhyngrwyd i bob ysgol a'r Cyngor. Amlygwyd gwybodaeth gefndir ar y Nodyn Briffio o ran sut y darparwyd y gwasanaethau a heriau isadeiledd diweddar ynghyd â'r camau lliniaru a gymerwyd.

Diolchodd y Cynghorydd Bill Crease i'r Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd am y Nodyn Briffio. Adroddodd ar ymweliad diweddar ag ysgol lle'r oedd yn llywodraethwr ysgol a'r problemau cyson a wynebai staff o ran cyrchu'r system gan ddefnyddio'r gwasanaeth WiFi yn yr ysgol. Roedd hyn drwy'r ysgol gyfan, a theimlai mai naill ai'r isadeiledd o fewn yr ysgol neu'r modd y gosodwyd y dyfeisiau sy'n cyrchu'r gwasanaeth oedd angen eu gwirio. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Isadeiledd i siarad â'r Cynghorydd Crease y tu allan i'r cyfarfod i gael mwy o fanylion ac i siarad â'r ysgol. Roedd pob ysgol wedi cael buddsoddiad sylweddol mewn isadeiledd TG, dyfeisiau diwifr a defnydd terfynol gyda miliynau wedi'u gwario ledled Cymru. Roedd yn fwy na pharod i godi hwn i ganfod pam yr effeithiwyd ar yr ysgol fel hyn.

Gofynnodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) i Reolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG a ddylai'r ysgol fod wedi uwchgyfeirio hyn drwy drefniadau Technegydd TG yr ysgol. Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG fod hynny'n gywir ond roedd am ymchwilio ymhellach i'r mater. Diolchodd y Cynghorydd Crease i'r Rheolwr Gwasanaeth a dywedodd fod nifer yr offer yn yr ysgol yn wych gyda'r prif anhawster i gael y ddyfais ar y system.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 19. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.48pm)

………………………….
**Y Cadeirydd**